Pen Dinas: Taith dywys i ddysgu am ddarganfyddiadau hen a newydd

Jon Dollery: Swyddog Mapio, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac Dr Alan Chamberlain, Fforwm Cymunedol Penparcau

Pen Dinas yw un o'r Bryngaerau Oes yr Haearn mwyaf yng Ngorllewin Cymru. Mae'r fryngaer hon wedi edrych dros Benparcau, Aberystwyth a thu hwnt ers dros 2000 o flynyddoedd, yn nodwedd amlycaf a chadarnaf yr ardal. Ers 2016, mae Fforwm Cymunedol Penparcau wedi bod yn cynnal prosiect cymunedol gyda chymorth Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (y Comisiwn) i ymchwilio i hanes hir Pen Dinas, ac mae'r gwaith hwn wedi newid ein dealltwriaeth o'r rhyfeddod hwn o Oes yr Haearn.

Dewch i archwilio'r fryngaer anhygoel hon ar daith gerdded dywys, wedi'i harwain gan Jon Dollery (o'r Comisiwn) a Dr Alan Chamberlain (o Fforwm Cymunedol Penparcau). Byddwn yn edrych ar sut mae naratif hanesyddol y safle wedi datblygu, o'i fapio ar ddechrau'r 18fed ganrif a'i gloddio yn y 1830au i'r darganfyddiadau cyffrous newydd a wnaed gan Fforwm Cymunedol Penparcau, y mae pob un ohonynt wedi cyfrannu at hanesyddiaeth esblygol y safle.

Oherwydd amseriadau a chyfyngiadau ar gerbydau, byddwch cystal â nodi mai dim ond 15 o gynadleddwyr ar y mwyaf fydd yn gallu dod ar y daith. Felly'r cyntaf i'r felin gaiff falu. Gallwch drefnu'ch lle ar y daith ar fore cofrestru. Dylai cynadleddwyr sy'n dymuno cymryd rhan gadw mewn cof dywydd mis Chwefror (gall Aberystwyth arfordirol a safle agored Pen Dinas fod yn oer a gwlyb iawn); felly dylech wisgo dillad ac esgidiau priodol. **Bydd y bws mini yn gadael campws y brifysgol am 8:30am.**